

## **Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 6ed Fedi 2022**

**Croeso ac Ymddiheuriad** - Rhoddwyd Croeso gan y Cadeirydd, Emma Chappell a gair o weddi gan Richard Ll. Jones

Cydymdeimlir a'r Cyngorydd Elwyn Jones ar golli ei wraig, a gyrrwn ein cofion tuag at Victor a theulu'r diweddar Gwenda Jones neu 'Anti Gwenda' fel oedd sawl un yn ei adnabod.

**Presennol** - Cadeirydd Emma Chappell ynghyd a'r Cynghorwyr, Richard Ll Jones, Ynyr Parri, Elwyn Jones, Sasha Williams, Phyllis Ellis, Dawn Parry, Idris Thomas Elfed Wyn Williams, Richard Jones, Gareth Griffiths a Jane Pierce.

**Ymddiheuriadau** - Rhian Evans-Hill, Elen George a Lowri Ann James.

**Datgan Buddiant** - Dim

### **Cofnodion 6fed Gorffennaf 2022**

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Idris Thomas (1)

Phyllis Ellis (2)

### **Materion o'r Cofnodion**

**Noddfa, Deiniolen** - Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau fod yr adeilad wedi ei adnewyddu yn ddiweddar, ac mae digartref sydd yn cael eu lleoli yno, ond yn gorfod mynd trwy asesiad risg trylwyr cyn eu lleoli yno.

**Wal ger Llys Gwynt, Penisa'r-waun** - Y wâl bellach wedi ei gwneud yn ddiogel unwaith eto.

### **Gohebiaeth a Materion Eraill**

**Cysgodfa Bws Brynrefail** - Mae'r gysgodfa Newydd bellach yn ei lle, ac yn edrych llawer mwy taclus nac oedd yr hen un. Fodd bynnag, mae cwyn wedi dod i law nad ydi'r gysgodfa yn cynnig digon o gysgod rhag y gwynt a'r glaw, ac nid oes ffenestr i weld os ydi'r bws yn dod. Byddwn yn edrych mewn i'r gysgodfa ac yn ymweld i weld beth ellir ei wneud

**Capel Ebeneser, Deiniolen** - Mae'r capel wedi dod ar y farchnad eto am bris o chwarter miliwn, gan fod yno bellach ganiatâd cynllunio I 7 fflat. Gofynnodd Y Cyngorydd Elfed Williams i'r Cyngor am gefnogaeth llythyr. Bydd Y cyngor Cymuned yn gyrru llythyr yn datgan os bydd cais i newid y cynlluniau ar hyn, mai ein blaenoriaeth a dymuniad pobl y pentref yw cael tai i bobl leol ar y safle.

### **Cynllunio**

Dyma restr o gynlluniau a ddaeth i law yn ystod y mis:

### **C22/0670/18/DT - Hen Ddinas Llanddeiniolen**

Codi estyniad deulawr i gefn y tŷ a llawr ychwanegol i estyniad ochor bresennol.

### **C22/0746/18/DT - 4 Dinorwic House, Dinorwig**

Newid defnydd o gaban i pod glampio.

### **C22/0702/18/LL - Tir Bryn Difyr, Bethel**

Cau'r fynedfa amaethyddol bresennol ac agor un newydd 15m i'r dwyrain

### **C22/0698/18/DT - Deiniol View, 2, Erw Bian, Bethel**

Codi shed

### **C22/0722/18/LL - Gwyndy, Bethel**

Ystafell addysg gartref, estyniad i'r cwrtill i ffurfio man chwarae diogel newydd o fewn

Coedwig, gan gynnwys rheolaeth tir/coedwig ar dir dros y ffordd i'r annedd. / Home

## **Llwybrau**

**Llwybr 122 Ty Mawr, Dinorwig** - Yn dilyn ysgrifennu at adran Llwybr eto ynglŷn â'r giât drydan, cafwyd llythyr yn cadarnhau fod swyddogion yn dal i weithredu ar hwn.

**Llwybr 98** - Derbyniwyd cais ar gyfer codi giât ar lwybr sydd yn croesi'r tir. Yr unig beth sydd yn peri problem yw pwy fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw ayyb.

**Llwybr 43** - Derbyniwyd llythyr yn dilyn archwiliad fod angen gosod arwydd a phost Newydd. Mae'r perchennog wedi tynnu'r giât fochyn ac wedi gosod ymhellach draw i beth oedd yno gyn. Hefyd wedi creu llwybr ochor y cae. Mae swyddogion wedi cysylltu yn dweud nad yw hyn yn annerbyniol, ac mae'r perchennog wedi cytuno i newid, ac yn hytrach na gosod yr hen giât fetel yn ôl, mae wedi prynu giatiau pren neis yn eu lle.

**Llwybrau Rhiwlas** - Mae'r garddwr James Devlin, dal wrthi yn torri'r llwybrau. Hwn yw'r flwyddyn gyntaf iddo ymdrin â'r Gwaith, a hynny ar fyr rybudd, goddeithio bydd y llwybrau i gyd wedi eu cyflawni erbyn canol y mis. Diolch iddo am ei waith.

**Llwybr Cefn Cae Pêl droed Bethel** - Rydym dal yn disgwyl gweld os yw'r llwybr yma ar restr gwelliannau gan Gyngor Gwynedd. Rydym yn dallt fod llawer o waith arno, a ddim yn sicr be fu'r dyfarniad gan ei fod yn ofnadwy o wlyb. Y clerch i gysylltu â'r Cyngor Sir.

**Clwb Ieuenctid** - Bu l'r cyngor Sir benodi 6 gweithiwr i glybiau ieuenctid Deiniolen a Bethel, sydd ar hyn o bryd ar fin cychwyn wythnos yn dechrau 26ain o Fedi, Nos Fawrth ym Methel a Nos Iau yn Neiniolen. Mae'r Cyngor Cymuned eisoes wedi cytuno i gyllido'r gost sydd dros £5000 y clwb. Gobeithio bydd yn llwyddiannus a bydd ieuenctid yr ardal yn gweld gwerth yn y nosweithiau yma.

## **Adroddiad gan Gynghorwyr Sirol**

Yr un oedd y neges mwy neu lai gan y tri. Mae tacluso ein pentrefi wedi cychwyn dros yr Haf, lle mae swyddog o'r cyngor wedi bod yn ymweld â'r cynghorwyr yn y pentrefi gan fynd o gwmpas i weld lle mae modd tacluso, a bydd hyn yn parhau yn ystod mis Medi.

Ym Methel bydd Clwb Ti a Fi Newydd yn cychwyn, Prosiect Bywyd Gwyllt ar dro a noswaith cwis a ballu yn cael eu cynnal ar nosweithiau yn y caffi gyda'r elw yn mynd tuag at fudiadau'r pentref. Bwriedir hefyd drefnu rhyw lyfrgell ail law yno, bydd mwy o wybodaeth am hyn yn yr wythnosau nesaf.

## **Adroddiad Ariannol**

Cyflwynwyd rhestr o dderbyniadau a gwariant ynghyd a mantolen 6 mis er mwyn gweld sefyllfa ariannol Y Cyngor hyd yn hyn. Rhoddwyd cyfle i drafod, ond roedd popeth i weld yn ei le. Cadarnhawyd taliadau am y mis. Diolchwyd I'r clerc.

## **O Gwmpas y Bwrdd**

**Eisteddfod Llyn ac Eifionydd** - Yn arferiad, pan mae Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld ag ardal, mae pob pentref yn cael targed o arian i'w godi. Bu I Ardaloedd Llyn ac Eifionydd fod gyda'u targedau pan gynhaliwyd yr Eisteddfod yn y Faenol, a bu iddynt hefyd gyrraedd eu targedau. Erbyn hyn, yn hytrach na tharged pentrefi, targed y Gymuned ydyw, hynny ydi plwyf Llanddeiniolen. Gan nad ydym yn sicr faint yw'r targed, mae'r clerc am gysylltu er mwyn cael gwybod a chawn drafodaeth ar hyn yng nghyfarfod mis Hydref.

**Bws i Dinorwig** - Dros yr haf, bu i fws gwasanaeth fethu mynd i Dinorwig, a gorfod refersio holl ffordd i lawr Gallt y Foel, oherwydd parcio anghyfrifol yn ben yr allt. Mae angen cysylltu â Chyngor Gwynedd i weld beth sydd yn cael ei wneud i sicrhau na fydd digwyddiad o'r fath eto.

**Lon o Fethel I Crawia** - Mae yna ordyfiant ar y ffordd yma dros ffordd i lon sydd yn arwain tuag at Lwyn Bedw. O bosib nac ar dir Fferm Tyn Berth mae'r gordyfiant, ond mae yn amhosib gweld, ac mae'r lon yn gul fel mae hi.

## **Cadarnhau Taliadau:**

594 - £618.76

595 - £228.00

596 - £143.88

597161.35

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar y 4ydd Hydref 2022